



 <p>Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales</p>	<p>Enw'r Cyfarfod Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol Dyddiad y Cyfarfod 17 Chwefror 2025 Eitem ar y agenda: 5</p>
---	--

Diweddariad ar y Gymraeg	
Arweinydd Gweithredol:	Neil Lewis, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Awdur:	Sian Jones, Rheolwr y Gymraeg

Llwybr Cymeradwyo/Craffu:	Cyflwynwyd i'r Tîm Arwain ar 23 Ionawr 2025
----------------------------------	---

Diben
<p>Mae'r papur hwn yn rhoi adroddiad statws a diweddariad ar ddarpariaeth Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru ers ein diweddariad diwethaf i Gyfarfod Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (PODCOM) ym mis Ionawr 2024*. Mae hyn yn cynnwys sut yr ydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol, y camau unioni rydym yn eu cymryd, a'n huchelgeisiau ar gyfer datblygu diwylliant dwyieithog ymhellach yn y sefydliad.</p>
<p>* Mae adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru a diweddariad Mwy na Geiriau wedi'u cyflwyno i PODCOM yn y cyfamser.</p>

Argymhelliad:				
CYMERADWYO <input type="checkbox"/>	YSTYRIED <input type="checkbox"/>	ARGYMELL <input type="checkbox"/>	MABWYSIADU <input type="checkbox"/>	SICRWYDD <input checked="" type="checkbox"/>
Gofynnir i'r Pwyllgor:				
<ul style="list-style-type: none"> Derbyn sicrwydd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydliad dwyieithog, sy'n cynnig gwasanaeth Gymraeg o ansawdd da i'n cwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru, bod ganddo raglenni gwaith yn eu lle i wella hyn a, lle'r ydym yn wynebu heriau wrth fodloni deddfwriaeth, ein bod yn ymdrechu i fynd i'r afael â hwy mewn ffordd systemig, wedi'i chynllunio. 				



Cysylltu â [Chynllun Strategol](#) Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gynllun strategol y cytunwyd arno, sydd wedi nodi saith blaenoriaeth strategol ac amcan llesiant.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y canlynol:

Blaenoriaeth Strategol/Amcan Llesiant	4 - Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol
Blaenoriaeth Strategol/Amcan Llesiant	3 - Hyrwyddo ymddygiadau iach
Blaenoriaeth Strategol/Amcan Llesiant	Pob Blaenoriaeth Strategol/Amcan Llesiant

Dadansoddiad effaith cryno

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd	Nid oes angen penderfyniad yma felly nid yw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd wedi'i gwblhau.
Risg a Sicrwydd	Mae rhai o Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i ni'n parhau i fod yn risg ar gyfer rhai adrannau o'r sefydliad a thynnir sylw atynt mewn cofrestrau risg unigol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at gwynion rydym wedi'u derbyn ers 1 Ebrill 2024. (Mae risgiau o ran y Gymraeg yn gysylltiedig â Risg 207 o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a Risg 4 o'r Gofrestr Risg Strategol)
Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)	Mae'r adroddiad hwn yn cefnogi ac/neu'n ystyried Safonau Iechyd a Gofal Themâu Ansawdd GIG Cymru Thema 3 – Gofal Effeithiol Thema 4 – Gofal ag Urddas Thema 7 – Staff ac Adnoddau
Goblygiadau ariannol	Mae goblygiadau ariannol parhaus i Safonau'r Gymraeg, yn enwedig o ran costau cyfieithu, ac mae ein prosesau cyfieithu ar gyfer y dyfodol wedi'u nodi yn y papur hwn.
Goblygiadau Pobl	Mae recriwtio i swyddi Cymraeg yn hanfodol yn parhau i fod yn her ac yn flaenoriaeth o ran cynllunio'r gweithlu. Mae uwchsgilio staff yn y sefydliad hefyd yn ffocws y gwaith a adroddir yn y papur hwn.



1.0 Pwrpas / sefyllfa

Mae'r papur hwn yn rhoi adroddiad statws a diweddariad ar ddarpariaeth Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru ers y diweddariad diwethaf i Gyfarfod Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (PODCOM) ym mis Ionawr 2024. Mae hyn yn cynnwys sut yr ydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol, y camau unioni rydym yn eu cymryd, a'n huchelgeisiau ar gyfer datblygu diwylliant dwyieithog ymhellach yn y sefydliad.

Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan annatod yn niwylliant Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan alluogi ein staff a defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio eu Gymraeg gyda ni ar bob cyfle.

2.0 Cefndir

Mae darpariaeth Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei phennu gan ddarnau amrywiol o ddeddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Mae ein rhwymedigaethau uniongyrchol wedi'u nodi yn [Safonau'r Gymraeg](#), sy'n gyfres gynhwysfawr o safonau sy'n egluro beth mae rhaid i ni ei wneud o ran darparu gwasanaethau yn Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol.

Daeth y Safonau i rym yn ystod 2019, ac maent wedi'u gwreiddio'n dda ar draws y sefydliad, ac mae llawer o staff yn ymwybodol o'r safonau a'u rhwymedigaethau.

Mae Grŵp Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cwrdd bob chwarter ac yn cynnwys cynrychiolydd o bob Cyfarwyddiaeth. Mae aelodau yn rhoadru gwybodaeth am faterion Gymraeg ac yn adrodd yn ôl ar eithriadau gan eu timau.

Mae gennym Dîm y Gymraeg sy'n cynnwys Rheolwr y Gymraeg a Chynghorydd y Gymraeg ac, yn dilyn darn mawr o waith i wella ein prosesau cyfieithu Gymraeg, dechreuodd ein Cydlynnydd Cyfieithu Gymraeg ym mis Medi 2024 er mwyn arwain ar ein prosesau cyfieithu. Dyma'r swydd gyntaf sy'n cynnwys arbenigedd cyfieithu y recriwtiwyd iddi yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae Tîm y Gymraeg yn rhan o'r tîm Profiad Gweithwyr ehangach. Yr Arweinydd Gweithredol ar gyfer y Gymraeg yw ein Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a'n harweinydd anweithredol yw ein His-Gadeirydd.

Bu llawer o ddatblygiadau yn ein gwaith o ran y Gymraeg dros y misoedd diwethaf ac mae'r papur hwn yn tynnu sylw at enghreifftiau o'r rhain.



3.0 Disgrifiad/Asesiad

Dyma rai o ddatblygiadau'r Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf.

3.1 Safonau'r Gymraeg

Mae [Cynllun Ymgynghori Clinigol Iechyd Cyhoeddus Cymru](#), yn nodi sut yr ydym yn bwriadu cynyddu nifer yr ymgynghoriadau clinigol a gynigiwn yn Gymraeg dros y 5 mlynedd nesaf i fodloni Safon 110 Safonau'r Gymraeg. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Medi 2023.

Ers hynny, mae Tîm y Gymraeg wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Is-adran Sgrinio a thîm Helpa Fi i Stopio i sicrhau bod y targedau yn y cynllun yn cael eu cyrraedd a chrëwyd offeryn monitro pwrpasol ar Sharepoint er mwyn hwyluso hyn.

Mae swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal nifer o weithdai a chyfarfodydd ynghylch Safon 110 yn ystod 2024, ac wedi datgan ei bod yn fodlon ar ein cynnydd hyd yma. Bydd gwaith ar y cynllun yn parhau yn ystod 2025–2026 a bydd ein hadroddiad cynnydd cyntaf yn cael ei gyhoeddi ddiwedd 2027.

Cyhoeddwyd ein [Hadroddiad Blynyddol diweddaraaf ar Safonau'r Gymraeg](#) ar ein [tudalen we ar gyfer y Gymraeg](#) ddiwedd mis Medi 2024 ac mae'n tynnu sylw at ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg yn gyffredinol; arferion gorau o bob rhan o'r sefydliad; a'r meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y flwyddyn nesaf.

Mae gan bob Cyfarwyddiaeth yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gynrychiolydd sy'n eistedd ar y Grŵp Cymraeg Corfforaethol a bob blwyddyn maent yn cyflwyno Cynllun Gweithredu manwl sy'n cynnwys gwybodaeth am gydymffurfio â phob un o'r safonau i Dîm y Gymraeg. Mae hyn yn cefnogi'r broses o ddrafftio Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg a'r diweddariad Blynyddol ar y cynllun Mwy Na Geiriau, ynghyd ag unrhyw geisiadau eraill mewn perthynas ag adrodd a gawn gan Gomisiynydd y Gymraeg neu Lywodraeth Cymru.

Ein gwefannau (Safon 39 Safonau'r Gymraeg): Yn dilyn cyfres o gwynion ac ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg i'n gwefannau a diffyg cydymffurfio â Safon 39 Safonau'r Gymraeg yn benodol, mae Tîm y Gymraeg wedi gweithio'n agos gyda'r Tîm Cyfathrebu Digidol dros y flwyddyn ddiwethaf i roi prosesau a chanllawiau cadarn ar waith.

Mae'r [rhestr wirio](#) a'r [canllawiau](#) hyn wedi'u cyhoeddi ar gyfer yr holl staff ac, er y derbyniwyd 2 gŵyn arall am y gwasanaeth Profi a Phostio yn ystod 2024, mae gwaith ar wefan newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd rhagddo'n dda a bydd yn dileu'r risg o ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol yn y pen draw.



Mae Tîm y Gymraeg wedi gofyn am eglurder gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar rai o'n canllawiau o ran y wefan er mwyn sicrhau bod arferion gorau'n cael eu rhannu o'r cychwyn cyntaf a bydd hyn yn cael ei rannu'n eang â staff yn gynnar yn 2025.

Y Ganolfan Lywodraethu a Safonau Llundio Polisi'r Gymraeg: Mae angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel llawer o sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru, gydymffurfio'n well â'r [Safonau Llundio Polisi \(safonau 69–77\)](#) a chafodd hyn ei ystyried gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ystod ei hymchwiliad i'r maes gwaith hwn yn 2024.

Bydd sefydlu Canolfan Lywodraethu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydlu'r hyn sydd ei angen er mwyn mynd i'r afael â hyn yn y dyfodol. Mae templedi ar gyfer offeryn a chanllawiau mewn perthynas ag asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, a fydd yn ein galluogi i asesu effaith ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, wedi'u drafftio gan Dîm y Gymraeg. Ar ôl eu cymeradwyo, byddant yn cael eu rhannu a'u defnyddio o ddechrau 2025. Bydd systemeiddio eu defnydd yn rhan o ddull y ganolfan lywodraethu yn allweddol.

3.2 Prosesau Cyfieithu Cymraeg

Un o brif flaenoriaethau Tîm y Gymraeg yn ystod 2024 fu bwrw ymlaen â gwaith i wella ein prosesau cyfieithu Cymraeg. Yn dilyn yr argymhellion a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol Busnes yn 2023, mae'r tîm wedi gweithio'n agos gyda'r tîm Caffael i gaffael darpariaeth fframwaith newydd o ddarparwyr cyfieithu Cymraeg allanol i ddisodli'r Fframwaith Cyfieithu Cenedlaethol a ddaeth i ben yn 2023.

Cwblhawyd y broses dendro ym mis Mehefin 2024 ac mae gennym bellach restr o 9 cyflenwr cyfieithu Cymraeg allanol a fydd, ynghyd â'n Cytundeb Lefel Gwasanaeth ag Uned Gyfieithu'r Bartneriaeth Cydwasanaethau, yn diwallu ein hanghenion cyfieithu Cymraeg. Mae ein perthynas ag Uned Gyfieithu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru'n parhau i fod yn gadarnhaol ac mae ein contract gyda hi'n parhau i dyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ers ein diweddariad PODCOM diwethaf, rydym wedi llwyddo i recriwtio Cydlynnydd Cyfieithu Cymraeg. Dechreuodd yn ei swydd ym mis Medi, ac mae bellach yn arwain ar ein prosesau cyfieithu Cymraeg, gan ddod â chyfoeth o brofiad ac arbenigedd i'r sefydliad.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar ddatblygu dangosfwrdd PowerApp i weinyddu ein cyfieithiadau Cymraeg, gan sicrhau bod y broses yn llawer symlach ac yn lleihau'r baich gweinyddol ar ein staff yn y dyfodol. Bydd y dangosfwrdd newydd yn cael ei lansio yn gynnar yn 2025 ac mae sesiynau hyfforddi wedi'u trefnu ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am gyfieithiadau Cymraeg ar draws y sefydliad.

3.3 Hyrwyddo'r Gymraeg



Mae **rhwydwaith staff Ymlaen** wedi mynd o nerth i nerth ers ei lansio ar 1 Mawrth 2023. Dyma ein rhwydwaith staff mwyaf erbyn hyn, gyda dros 100 o aelodau. Mae'r rhwydwaith wedi cynnal amrywiaeth o ddiwyddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf. Prif bwrpas y rhwydwaith yw hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad, yn unol â'n [Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg](#). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd digwyddiadau gyda Thîm y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Adam Pearce, awdur a chyfieithydd The Hobbit i'r Gymraeg, gan sicrhau amrywiaeth o ddiwyddiadau ar gyfer pob diddordeb.

Mae cyd-gadeiryddion y rhwydwaith yn gweithio mewn partneriaeth â Thîm y Gymraeg i gynnal ein hail [Wythnos Gymraeg o 3–7 Mawrth 2025](#).

3.4 Datblygu sgiliau Cymraeg ein gweithlu

Rydym yn parhau i annog a chefnogi ein staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu Cymraeg wrth iddynt weithio i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae ein data yn dweud wrthym fod mwy o'n staff yn dysgu Cymraeg. Eleni, cofrestrodd 24 aelod o staff ar gyfer cyrsiau 30 wythnos a ddechreuodd ym mis Medi 2024, sy'n gynydd bach i'r nifer a gofrestrodd y llynedd.

Yn ystod 2023 clywsom newyddion am gyfle cyffrous i staff y GIG yng Nghymru ddatblygu eu Cymraeg a magu eu hyder i'w defnyddio yn y gwaith. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio gyda Choleg Cambria, ein darparwr Codi Hyder, i sicrhau bod ein staff yn cael y cyfle i fynychu'r sesiynau pwrpasol gyda thiwtor. Er gwaethaf rhai problemau cychwynnol, mae'r cynllun yn mynd o nerth i nerth ac mae 33 aelod o staff wedi cymryd rhan hyd yma. Lansiodd Carfan 3 ym mis Ionawr 2025.

Cynnig arall gan Ganolfan Dysgu Cymraeg y GIG yng Nghymru yw'r cynllun newydd 'Croeso'. Mae ar gyfer y rhai sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg wedi'u cofnodi ar hyn o bryd a bydd yn cyflwyno'r Gymraeg iddynt. Bydd y cwrs, sydd hefyd yn cael ei ddarparu gan Goleg Cambria, yn ein galluogi i gwrdd â'r nod yng [nghynllun gweithredu 5 mlynedd Mwy Na Geiriau](#), sef y bydd gan holl staff GIG Cymru lefel sylfaenol o Gymraeg erbyn 2027.

Edrychwn ymlaen at lansio'r cynllun hwn ddiwedd Ionawr 2025.

3.5 Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Mae ein perthynas â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi parhau i fod yn gadarnhaol. Roeddem wedi cael adborth da am ein [hadroddiad blynyddol](#) diweddaraf ym mis Medi a chawsom gyfarfod blynyddol llwyddiannus ym mis Mawrth.

Ers mis Tachwedd 2024, mae gennym brif gyswllt newydd yn swyddfa'r Comisiynydd, sy'n hawdd mynd ato ac yn realistig o ran disgwyliadau ac edrychwn ymlaen at gydweithio â'r prif gyswllt hwnnw dros y flwyddyn nesaf.



Ym mis Ionawr 2025, gwnaethom lunio a chyflwyno ein hymateb i [Bolisi Gorfodi'r Comisiynydd](#), sydd wedi'i ddiweddaru. Rydym yn croesawu'r polisi diwygiedig, sydd â ffocws newydd ar gyd-reoleiddio rhwng swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a sefydliadau sy'n gweithredu Safonau'r Gymraeg, fel ni.

3.6 Llwyddiannau o ran data sgiliau Cymraeg

Mae ein cofnodion yn dangos bod 95% o weithlu Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR. Hefyd, mae 92.8% o'r gweithlu wedi cwblhau'r modiwl hyfforddiant gorfodol Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar ESR. Mae'r data hwn yn gadarnhaol iawn ac mae'r olaf o'r ddau yn rhagori ar darged Llywodraeth Cymru o 90%, ac rydym yn falch iawn o hyn.

3.7 Cwynion ynghylch y Gymraeg

Yn ystod 2024, derbyniodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddwy gŵyn ffurfiol gan aelodau'r Cyhoedd drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Roedd y ddwy gŵyn (**CS1283 a CS1243**) yn ymwneud ag ansawdd a chysondeb y cynnwys Cymraeg ar y [platfform Profi a Phostio](#), sydd ar gael i ddefnyddwyr drwy wefan [Iechyd Rhywiol Cymru](#).

Mae'r cwynion yn debyg i rai a dderbyniwyd yn y gorffennol ynglŷn â'r rhaglen ac mae'r materion a'r risg dan sylw wedi eu nodi a'u huwchgyfeirio.

Roedd ein hymatebion i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar y ddwy gŵyn yn foddhaol iddi. Serch hynny, mae'r Comisiynydd wedi gofyn am ddiweddariad ar ein gwaith gwefan yn fwy cyffredinol, ac ar sut y bydd materion y platfform Profi a Phostio yn cael eu hunioni yn rhan o'r gwaith hwn erbyn mis Mawrth 2025.

Bydd Tîm y Gymraeg a'r timau Cyfathrebu Digidol yn cydweithio ar y diweddariad ym mis Chwefror ac yn rhoi sicrwydd i swyddfa'r Comisiynydd ein bod ar y trywydd iawn i adeiladu ein gwefan newydd, a fydd yn cydymffurfio'n llawn â Safon 39 Safonau'r Gymraeg erbyn diwedd mis Mawrth.

4.0 Ein blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf

Dros y flwyddyn ariannol nesaf, ein prif flaenoriaethau ar gyfer y Gymraeg fydd:

1. Parhau i symud ymlaen i gyflawni'r targedau a nodir yng [Nghynllun Ymgynghori Clinigol Iechyd Cyhoeddus Cymru](#), yn unol â Safon 110 Safonau'r

Gymraeg, a chynyddu nifer yr ymgynghoriadau clinigol a gynigiwn yn Gymraeg dros y 5 mlynedd nesaf.

2. Parhau i weithredu'r broses a'r ddarpariaeth cyfieithu Cymraeg newydd a'u hadolygu a'u gwella'n gyson.
3. Parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y tîm Cyfathrebu a'u cefnogi ar waith unioni ystâd y we i sicrhau cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg a rhoi sicrwydd i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.
4. Cefnogi Cyfarwyddiaethau i gwblhau a chyflwyno'r Cynllun Gweithredu Cydymffurfedd i'w fwydo i'n hadroddiadau blynyddol.
5. Sicrhau bod ein cyfleoedd dysgu Cymraeg i staff yn parhau i fod yn hygyrch a bod ein staff yn cael y cyfle i gymryd rhan ym mhob agwedd o'r Cynllun Dysgu Cymraeg ar gyfer y Sector Iechyd a Gofal. Mae hyn yn cynnwys ein staff mewn lleoliadau Sgrinio a labordai.
6. Darparu Wythnos Gymraeg lwyddiannus rhwng 3 a 7 Mawrth 2025, a fydd yn codi ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad.
7. Gweithio'n agos gyda thîm y Ganolfan Lywodraethu i sicrhau bod yr effaith ar y Gymraeg o ran ein penderfyniadau polisi yn cael eu hystyried a bod gennym brosesau cadarn ar waith i asesu hyn.
8. Cynyddu nifer yr aelodau staff sy'n siarad Cymraeg sydd gennym drwy ein cyfleoedd recriwtio, cynllunio'r gweithlu a datblygu.

3.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r gwaith hwn wedi'i baratoi, gan ddilyn y pum ffordd o weithio fel y'u diffinnir yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn y Ddeddf, yn y ffyrdd a ganlyn:



Mae'r gwaith a amlinellir yn y papur hwn yn ymwneud ag ymgorffori newidiadau hirdymor mewn systemau a gweithdrefnau, yn unol â'n Strategaeth Pobl.



Bydd gwreiddio gweithdrefnau Cymraeg yn atal ein sefydliad rhag methu â darparu'r gwasanaeth a ddisgwylir gennym gan y siaradwyr Cymraeg yr ydym yn eu gwasanaethu.



Mae gwaith tîm y Gymraeg yn darparu ymateb integredig i nifer o fframweithiau trawsbynciol, gan gynnwys Safonau'r Gymraeg, menter Mwy Na Geiriau, a'r Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.



Mae tîm y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda thimau ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w helpu i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau, gan ddarparu cymorth a chefnogaeth ymarferol lle bo angen.

Nod gwaith diwylliannol ar draws y sefydliad a ddisgrifir yn y papur hwn yw cynyddu nifer y staff sy'n gallu teimlo ymdeimlad o berchnogaeth o'r Gymraeg.

1. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor:

- **Derbyn sicrwydd** bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydliad dwyieithog, sy'n cynnig gwasanaeth Gymraeg o ansawdd da i'n cwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru, bod ganddo raglenni gwaith yn eu lle i wella hyn a, lle'r ydym yn wynebu heriau wrth fodloni deddfwriaeth, ein bod yn ymdrechu i fynd i'r afael â hwy mewn ffordd systemig, wedi'i chynllunio.